ATODLEN 1

## Esemptiadau

**1.**—(1) Y mathau o fagiau siopa untro nad yw rheoliad 6 yn gymwys iddynt yw—

(a) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys bwyd heb ei becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl neu gan anifeiliaid;

(b) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys hadau, bylbiau, cormau neu risomau rhydd heb eu pecynnu;

(c) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys unrhyw fwyell, cyllell, llafn cyllell neu lafn rasel heb eu pecynnu;

(ch) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys nwyddau heb eu pecynnu ac a halogwyd gan bridd;

(d) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys y canlynol a gafodd eu pecynnu—

(i) pysgod neu gynhyrchion pysgod heb eu coginio;

(ii) cig neu gynhyrchion cig heb eu coginio;

(iii) dofednod neu gynhyrchion dofednod heb eu coginio,

y mae, mewn perthynas â hwy, uchafswm eu dimensiynau yn 205 o filimetrau (“mm”) (lled) x 125 mm (lled cwysed) x 458 mm (uchder gan gynnwys handlenni);

(dd) bagiau wedi eu selio a gyflenwir gan werthwr cyn cyrraedd y man gwerthu;

(e) bagiau a ddefnyddir i gynnwys nwyddau a brynwyd ar fwrdd llongau, trenau, awyrennau, coetsis neu fysiau;

(f) bagiau a ddefnyddir i gynnwys nwyddau a brynwyd mewn man a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn fan o dan gyfyngiad diogelwch o dan adran 11A o Ddeddf Diogelwch wrth Hedfan 1982(**1**);

(ff) bagiau ar gyfer pecynnu a chyflenwi post neu nwyddau wth archebu drwy'r post;

(g) bagiau—

(i) a wnaed yn gyfan gwbl o bapur;

(ii) mae uchafswm eu dimensiynau yn 175 mm (lled) x 260 mm (uchder);

(iii) nad oes ganddynt gwysed; a

(iv) nad oes ganddynt handlen;

(ng) bagiau—

(i) a wnaed yn gyfan gwbl neu'n bennaf o blastig;

(ii) mae uchafswm eu dimensiynau yn 125 mm (lled) x 125 mm (uchder);

(iii) nad oes ganddynt gwysed; a

(iv) nad oes ganddynt handlen;

(h) bagiau—

(i) a wnaed yn gyfan gwbl o bapur;

(ii) mae uchafswm eu dimensiynau yn 80 mm (lled) x 50 mm (lled cwysed) x 155 mm (uchder); a

(iii) nad oes ganddynt handlen;

(**1**) 1982 p.36; cafodd adran 11A ei mewnosod gan Ddeddf Diogelwch Awyrennol a Morol 1990 (p.31), Atodlen 1, paragraff 3; a'i diwygio gan O.S. 2010/902, rheoliadau 3 a 9(b).

(i) leininau â chwysed a ddefnyddir i leinio neu i lapio blychau, cratiau neu gynwysyddion eraill o natur debyg;

(j) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys creaduriaid byw dyfrol mewn dŵr;

(k) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys un eitem neu fwy o'r categorïau a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Y categorïau a bennir yw—

(a) cynnyrch meddyginiaethol neu gyfarpar rhestredig a werthir yn unol â phresgripsiwn a ddyroddwyd gan ymarferydd meddygol cofrestredig, deintydd, rhagnodydd atodol, nyrs-ragnodydd annibynnol, nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol, optometrydd-ragnodydd annibynnol, fferyllydd-ragnodydd annibynnol neu broffesiynolyn iechyd yr AEE;

(b) pan werthir neu pan gyflenwir hwy heb fod yn unol â pharagraff (a),,meddyginiaeth fferyllol.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "cyfarpar rhestredig" yw cyfarpar rhestredig o fewn ystyr "*listed appliances*" yn unrhyw un o'r canlynol—

(a) adran 80 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**);

(b) erthygl 63 o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(**3**);

(c) adran 27 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**4**);

(ch) adran 126 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**5**);

mae i "cynnyrch meddyginiaethol" yr ystyr a roddir i "*medicinal product*" yn adran 130 o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(**6**);

ystyr "deintydd" ("*dentist*") yw person sydd wedi'i gofrestru yn y gofrestr ddeintyddion a gedwir o dan adran 14 o Ddeddf Deintyddion 1984(**7**);

ystyr "heb ei becynnu" ("*unpackaged*") yw heb gael ei lapio'n gyfan gwbl neu'n rhannol;

ystyr "meddyginiaeth fferyllol" ("*pharmacy medicine*") yw cynnyrch meddyginiaethol nad yw'n feddyginiaeth drwy bresgripsiwn yn unig ac sydd—

(a) yn unol ag adran 52(**8**) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968, y gellir ei werthu neu ei gyflenwi yn unig o dan yr amodau a bennir yn is-adran (1)(a) i (c) o'r adran honno; neu

(b) heblaw am y ffaith y gellir ei werthu neu ei gyflenwi yn unol ag adran 55(**9**) o'r Ddeddf honno, dim ond o dan yr amodau hynny y gellid ei werthu neu ei gyflenwi'n gyfreithiol;

ystyr "meddyginiaeth drwy bresgripsiwn yn unig" ("*prescription only medicine*") yw cynnyrch meddyginiaethol—

(a) o ddisgrifiad neu sy'n dod o fewn dosbarth a bennir mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 58(**10**) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968;

---

(**2**) 2006 p.42.
(**3**) O.S. 1972/1265 (G.I. 14), diwygiwyd gan 1978/1907 (G.I. 26); mae diwygiadau eraill ond nid oes unrhyw un yn berthnasol.
(**4**) 1978 p.29; mae diwygiadau i adran 27 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) 2006 p.41.
(**6**) 1968 p.67; diwygiwyd adran 130 gan O.S. 1994/3119, rheoliad 2(b); ac O.S. 2005/50, rheoliad 25(1)(c) a (d); mae diwygiadau eraill ond nid ydynt yn berthnasol.
(**7**) 1984 p.24; amnewidiwyd adran 14 gan O.S. 2005/2011, erthyglau 2(1) a 6; ac a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3101 rheoliadau 109 a 111.
(**8**) Diwygiwyd adran 52 gan Ddeddf Iechyd 2006 (p.28); mae diwygiadau eraill ond nid ydynt yn berthnasol.
(**9**) Diwygiwyd adran 55 gan O.S. 2004/1771, erthygl 3 a pharagraff 10(b) o'r Atodlen; gan O.S. 2006/2407, paragraffau 1 a 26 o Atodlen 8.
(**10**) Mae diwygiadau i adran 58 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) y mae adran 58 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 104(**11**) o'r Ddeddf honno;

mae i "nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol" yr ystyr a roddir i "*independent nurse prescriber*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**12**);

mae i "proffesiynolyn iechyd yr AEE" yr ystyr a roddir i "*EEA health professional*" yn rheoliad 1(2) o Reoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Dynol (Rhagnodi gan Ymarferwyr AEE) 2008(**13**); ac

mae i "rhagnodydd atodol", "nyrs-ragnodydd annibynnol", "optometrydd-ragnodydd annibynnol" a "fferyllydd-ragnodydd annibynnol" yr ystyr a briodolir i "*supplementary prescriber*", "*nurse independent prescriber*", "*optometrist independent prescriber*" a "*pharmacist independent prescriber*" yn ôl eu trefn yn erthygl 1(2) o Orchymyn Meddyginiaethau drwy Bresgripsiwn yn Unig (Defnydd Dynol) 1997(**14**).

(**11**) Diwygiwyd adran 104 gan O.S. 2004/1031, rheoliad 54 a pharagraff 17 o Atodlen 10; a chan O.S. 2006/2407, paragraffau 1 a 54 o Atodlen 8.
(**12**) O.S. 1992/662; O.S. 2003/2624 (Cy.252), O.S. 2007/205 (Cy. 19) ac O.S. 2010/1647 (Cy.155) yw'r offerynnau diwygio perthnasol.
(**13**) O.S. 2008/1692, mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**14**) O.S. 1997/1830; O.S. 2003/696, O.S. 2004/1771, O.S. 2005/765, O.S. 2006/915 ac O.S. 2010/1621 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.